

## WYNN (TEULU), RŪg, Sir Feirionnydd, a Boduan (Bodfean), Sir Gaernarfon. ▾

Ceir manylion am rai o aelodau'r teulu hwn yn erthyglau ar **Bodvel** (Teulu), Bodfel, Sir Gaernarfon, **Glynn** (Teulu), Glynllifon, Sir Gaernarfon, a **Nannau**, ' Nanney ' (Teulu), Sir Feirionnydd. Dangosir yn yr erthygl ar deulu **Nannau** sut y daeth **EDWARD WILLIAMES SALUSBURY VAUGHAN** (bu farw 1807), mab **Syr Robert Howell Vaughan (y barwnig 1af o Nannau)**; bu farw 1796) yn berchen tiroedd Rŭg drwy ewyllys yr etifeddes (1780); buont ym meddiant y Fychaniaid hyd 1859, sef hyd farw Syr Robert Williames Vaughan, y 3ydd barwnig, a'u gadawodd yn ei ewyllys i drydydd mab Spencer Bulkeley, 3ydd arglwydd Newborough, sef i **CHARLES HENRY WYNN** (ganwyd 22 Ebrill 1847 a bu farw 14 Chwefror 1911). Dilynwyd C. H. Wynn gan ei fab hynaf, eithr yn hen gartref y teulu, sef Plas Boduan, rhwng Pwllheli a Nefyn, y mae'r teulu yn byw yn awr. Am fanylion ynghylch hanes y bobl a oedd yn byw yn gynharach yn Rŭg, yn enwedig **Salsbriaid** Bachymbyd, gweler erthygl gan B. G. Owens, ' Rug Deeds and Documents in the National Library,' yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, vi, 104-6, chatalogiau'r Llyfrgell o ddogfennau Rŭg a rhai yr arglwydd Bagot. Daethai **PIERS SALUSBURY** i feddu arglwyddiaeth Rug drwy ei wraig yn gynnar yn y 16fed ganrif. Prynodd ei fab yntau, **ROBERT SALUSBURY**, yn 1549, arglwyddiaeth Glyndyfrdwy a oedd yn rhan o drefntadaeth **Owain Glyndwr**; gweler yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, ii, 48, ddisgrifiad o ddogfen yng nghasgliad yr arglwydd Bagot yn cofnodi trosglwyddo tir gan **Owain Glyndwr** yn 1392.

Fel y sylwyd, yn Llŷn, sef Boduan, y mae hen gartref y Wyniaid a ddaeth i feddu Rŭg. Ceir manylion am Wyniaid Boduan yn y llyfrau arferol ar y teuluoedd tiriog, e.e. Burke, Nicholas, etc., a'r ach yn **J. E. Griffith**, *Pedigrees*, 59, 171 (nodyn), 173. Bu **JOHN WYNN**, Bodfel, sydd yn ymyl Boduan, yn siryf Sir Gaernarfon yn 1551 a 1560, a cheir iddo fod yn ymladd ar ran y brenin Edward VI yn erbyn Ket a'i gyd-wrthryfelwyr yn ymyl Norwich yn 1549, a chael Ynys Enlli yn rhodd am ei wroldeb (gweler *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, vi, 106 ). Aelod o deulu'r Pilstyniaid oedd ei wraig. Dilynwyd John Wynn gan ei fab **THOMAS WYNN**, Boduan. Gor-or-wyr Thomas Wynn oedd y Syr **THOMAS WYNN** (bu farw 1807), y barwn Newborough 1af (crewyd 1776) - gweler yr erthygl ar **Glyn** (Teulu), Glynllifon, ac erthygl fanwl gan **E. D. Jones**, yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, vi, 176-81 , sydd yn rhoddi manylion llawnach nag a ellir eu cynnwys yn yr erthygl hon.

### Awdur

Syr **William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

### Ffynonellau

Enwyd rhai ffynonellau yng nghorff yr erthygl

At y rhain ychwaneger catalogiau'r Llyfrgell Genedlaethol o gasgliadau dogfennau Rŭg, Bodfel, Glynllifon, a'r arglwydd Bagot, ac, yn arbennig, y disgrifiadau ohonynt a geir yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* gweler hefyd Rŭg (Longueville) MS. 5 yn L.I.G.C.

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrefydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Davies, W. Ll., (1953). WYNN (TEULU), Rŭg, Sir Feirionnydd, a Boduan (Bodfean), Sir Gaernarfon.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WYNN-RUG-1775>

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government